## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu |
| **DYDDIAD:** | 26-09-2022 |
| **LLEOLIAD:** | Cyfarfod rhithwir |
| **TEITL:** | Cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022 ac Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-2022 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Rhoi cyfle i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu graffu ar y penderfyniadau a wnaed neu'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a chael Adroddiad Blynyddol Llesiant Lleol Ceredigion 2021-22 |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | Fel y Pwyllgor Craffu dynodedig ar gyfer cymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. |

**CEFNDIR:**

O dan Adran 35 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sicrhau bod gan eu Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r pŵer i graffu ar benderfyniadau a wnaed, neu gamau eraill a gymerwyd, gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer ardal yr Awdurdod Lleol wrth arfer ei swyddogaethau.

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yn ymwneud â chyflawni eu Cynlluniau Llesiant. Mae'n ofyniad statudol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 bod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol yn craffu ar adroddiadau blynyddol. Yn wahanol i'r asesiadau llesiant a'r cynlluniau llesiant, nid oes rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus aros ar gyfer argymhellion y panel craffu i gymeradwyo adroddiadau blynyddol ond, anogir y Bwrdd i ddefnyddio argymhellion Craffu wrth ddatblygu rhaglenni gwaith a rhoi adroddiadau yn y dyfodol.

**COFNODION CYFARFODYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CEREDIGION A GYNHALIWYD AR ORFFENNAF 12fed 2022.**

Cyflwynir cofnodion drafft cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022 i'r Pwyllgor a gellir eu gweld yn **Atodiad 1**.

Cyflwynwyd a chymeradwywyd Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion ar gyfer 2021-22 ym Mwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, yn ei gyfarfod ar Orffennaf 12fed 2022, ac mae hwn i'w weld yn **Atodiad 2**.

| | | |
|---|---|---|
| | **A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** | Heb ei gwblhau gan nad yw'r adroddiad yn newid i Bolisi na Gwasanaeth. |
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLION:**

i. **Cael cofnodion drafft cyfarfodydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion a gynhaliwyd ar Orffennaf 12fed 2022**
ii. **Cael Adroddiad Blynyddol Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion 2021-22**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLION:**

Er mwyn i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu gyflawni ei rôl o gymryd trosolwg o effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Alun Williams |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 5-09-2022 |